# Tasg 2

# LLOSGWCH EICH GWISG YSGOL

1. Trafodwch unrhyw 4 peth rydych chi'n ei hoffi am ddiwyg (ymddangosiad) y poster e.e. lliw, ffont.

   i)

   ii)

   iii)

   iv)

2. Mae'r disgybl a ysgrifennodd y poster wedi gwneud hynny yn drefnus. Labelwch y ddau baragraff isod gyda'r geiriau.
   Cyfarch yr un sy'n darllen

   Nodi barn

   Cefnogi barn gyda thystiolaeth

   Rhoi gwybodaeth

   i) Mae gwisg ysgol yn anelu at wneud i bawb edrych yr un fath. Ond yn lle gwella ein hunan ddelwedd mae'n gwneud yn hollol i'r gwrthwyneb. Mae maint a siâp corff pob un ohonom yn wahanol ac mae'n amhosibl i wisg ysgol siwtio pawb. Yn ôl yr ymchwil "Public School Uniforms: Effect on Perceptions of Gang Presence, School Climate, and Student Self-Perceptions," mae gan ddisgyblion sydd ddim wedi gorfod gwisgo gwisg ysgol fwy o hyder na'r rhai sydd wedi gorfod gwisgo gwisg ysgol.

   ii) Mae gwneud pawb yr un fath yn BORING!" Ac mae'r dillad eu hunain yn BORING!

Meddyliwch am eu lliwiau – glas, du, brown, gwyrdd ac unrhyw liw di-fflach. I wneud pethau'n waeth rhaid gwisgo'r un dillad ddydd ar ôl dydd! Mae ysgol yn ddigon diflas heb orfod gwisgo dillad diflas hefyd!

3. CYSTADLEUAETH!

Cynlluniwch eich gwisg ysgol ddelfrydol. Rhaid i chi fanylu ar liwiau a steil gan roi rhesymau.

4. Yn eich grwpiau meddyliwch am 6 i 8 rheswm O BLAID gwisg ysgol. Yna lluniwch boster gan ddilyn trefn Llosgwch eich Gwisg Ysgol.